www.nonnativespecies.org

Fersiwn 1.0. Lluniwyd gan Lucy Cornwell (NNSS), Nigel Semmence (yr Uned Wenyn Genedlaethol).
Yn seiliedig ar Daflen Wybodaeth Adnabod Museum National d'Histoire Naturelle, Paris, Ffrainc

# Adnabod nyth Cacwn Asia

Mae cacwn Asia yn gwneud dau fath o nyth, sef prif nythod a nythod eilaidd:

**Prif nythod:**

- Sfferig â thwll mynediad bach ar y gwaelod, rhwng 5 a 10cm ar ei thraws fel arfer.
- Caiff ei hadeiladu yn y gwanwyn gan frenhines Cacwn Asiaidd unigol, fel arfer mewn lle gwarchodedig megis mieri, gwrych neu mewn / ar adeilad.
- **Mae prif nythod gwenyn meirch a chacwn i gyd yn edrych yn debyg. Dim ond am brif nythod gyda chacwn Asia y dylech roi gwybod. Er mwyn adnabod nyth, cadwch lygad am bryfed o bellter diogel.**

**Nythod eilaidd:**

- Ar ffurf gellygen, twll mynediad hanner ffordd i fyny'r nyth, hyd at 60 cm o led x 80 cm o uchder.
- Fe'u ceir fel arfer mewn coed ond gallant fod mewn adeiladau a gwrychoedd hefyd.
- **Defnyddiwch ysbienddrych i adnabod nythod eilaidd o bellter diogel. Peidiwch â tharfu ar nythod a amheuir a chiliwch oddi wrth unrhyw nythod gwenyn meirch / cacwn os byddwch yn gweld pryfed hedegog.**

**Cacynen Asia,**
*Vespa velutina*



Nythod eilaidd mewn canopi coed yn yr haf (chwith)



Prif Nyth. Mae nythod gwenyn meirch a chacwn i gyd yn edrych yn debyg. Dim ond os byddwch yn gweld nyth gyda chacwn Asia y dylech roi gwybod amdani.



Nyth eilaidd mewn gwrych



Nyth eilaidd mewn adeilad



## Rhybudd!

Rhowch wybod am achosion o weld Cacwn Asia a nythod a amheuir:

- gan ddefnyddio ap cofnodi iPhone ac Android: **'Asian Hornet Watch'**
- ar-lein yn: **nonnativespecies.org/asianhornet**
- drwy e-bost: **alertnonnative@ceh.ac.uk**

Er mwyn cael cymorth i adnabod nyth Cacwn Asia a amheuir, neu er mwyn helpu i adnabod nythod, cysylltwch â'ch Tîm Cacwn Asia lleol.

Rhowch wybod am Gacwn Asia:

Dewch o hyd i Dîm Cacwn Asia:

# Nythod rhywogaethau tebyg

Gellir cymysgu nythod eilaidd cacwn Asia â nythod gwenyn meirch a chacwn eraill, neu wrthrychau mewn coed. Os byddwch yn amau i chi weld nyth cacwn Asia, defnyddiwch ysbienddrych i gadarnhau hynny o bellter diogel cyn rhoi gwybod amdani. Gweler dros y dudalen am fanylion ble i roi gwybod am nythod a sut i gael help i adnabod nyth bosibl.

**Cacynen Asia**, *Vespa velutina*

**Nyth eilaidd:**

- Fe'u ceir fel arfer mewn coed ond gallant fod mewn adeiladau a gwrychoedd hefyd.
- Ar ffurf gellygen.
- Twll mynediad hanner ffordd i fyny'r nyth.
- Hyd at 60 cm o led x 80 cm o uchder.







**Gwrthrychau eraill mewn coed**

- Nythod brain a phïod.
- Uchelwydd.
- Nythod gwiwerod.

Nyth aderyn mewn coeden:



**Cacynen Ewropeaidd,** *Vespa crabro*

**Nyth eilaidd:**

- Fel arfer mewn coed cau, simneiau. Anaml y'u ceir yn yr awyr agored.
- Silindrog
- Agoriad llydan ar y gwaelod.
- 30 x 60 cm fel arfer.



**Gwenynen feirch ganolwedd,** *Dolichovespula media*



**Nyth eilaidd:**

- Fel arfer mewn llwyni sy'n llai na 2m o uchder.
- Conigol.
- Agoriad bach yn y pen is-af, heb fod yn y canol
- 20 x 25 cm fel arfer.



**Prif Nyth:** Mynedfa nodweddiadol ar ffurf tiwb (yn wahanol i nyth cacwn Asia).



**Gwenynen feirch,** *Vespula vulgaris*



**Nyth eilaidd:**

- Ar y ddaear fel arfer, neu mewn lleoedd cyfyng mewn adeiladau.
- Crwn i gonigol.
- Agoriad bach cudd yn y pen isaf.
- 30 x 35 cm fel arfer.



Cydnabyddiaeth am bob llun. Addaswyd y llun o goeden o: Trees in a hedgerow gan Marathon, CC BY-SA 2.0 <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/2.0> via Wikimedia Commons. Lluniau o brif nythod a nythod eilaidd cacwn Asia: John de Carteret - Jersey. Llun o nyth eilaidd gwenyn feirch Canolwedd: Sarah Smith / A Euro-wasp nest - Pendomer, CC BY-SA 2.0 Generic, drwy Wikimedia Commons. Llun o brif nyth gwenyn feirch Canolwedd: Karen McCartney. Llun o nyth gwenyn meirch: David Jones. Lluniau o nythod a phryfed eraill: Hawlfraint y Goron.